



Llwybr Cylchol Cemaes, Ynys Môn

Mae'r daith gerdded gylchol hon o Fae Cemaes, sy'n bentref hardd ar lan y môr, gyda'i harbwr yn ymestyn dros ran arbennig o lwybr arfordir Cymru. Yn ogystal, mwynhewch darn o gefn gwlad gwyrdd a ffrwythlon Ynys Môn.

"Mwynhewch gerdded ar glogwyni dramtig ar y daith gerdded egniol hon, mae'n ddramatig ac yn arw – cewch eich syfrdanu!"

GRUFF OWEN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau a Diwedd:

Bae Cemaes (SH374937).

Pellter:

3 milltir/6km.

Ar hyd y ffordd...

Dechreuwch ar eich taith gerdded i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'r maes parcio oddi ar yr arfordir ar hyd lôn wledig. Trowch i'r dde wrth gyffordd ac yna i'r chwith ar hyd llwybr troed ar waelod fferm Tyddyn Rhydderch.

Dilynwch y lôn hon nes i chi ymuno â ffordd - trowch i'r dde yma a dilynwch hon am gyfnod byr.

Yn fuan, byddwch yn troi i'r chwith oddi ar y ffordd hon ac ar lwybr troed sy'n arwain tua'r gogledd tuag at yr arfordir. Wrth y ffordd, trowch i'r chwith i ymuno â Llwybr Arfordir Cymru mewn cyfeiriad gwrthglocwedd tuag at Borth Llanlleiana.

Ym Mhorth Llanlleiana, byddwch yn gweld adfeilion gweithiau o'r 19eg ganrif lle cloddiwyd clai o'r llechwedd a'i gludo o'r harbwr bach gerllaw i'w ddefnyddio wrth weithgynhyrchu porlen. Byddwch hefyd yn mentro yn Ninas Gynfor, y pwynt mwyaf gogleddol yng Nghymru. Mae'r pentref creigiog hwn yn cynnwys golygfeydd helaeth o Fôr Iwerddon ac ychwanegwyd tŵr gwyllo ato yn 1901 i goffâu coroni Edward VII.

Wrth deithio tua'r gorllewin, ar hyd arfordir garw gogledd Ynys Môn, byddwch yn mynd i'r afael ag esgynfeydd a disgyniadau serth, gyda golygfeydd helaeth i'r ynysoedd creigiog a elwir yn Ynysoedd y Moelrhoniaid i'r gorllewin a Phwynt Lynas i'r dwyrain.

Byddwch hefyd yn pasio nifer o safleoedd hanesyddol diddorol, fel Eglwys Llanbadrig, sy'n edrych dros Fae Cemaes. Yn un o'r safleoedd Cristnogol hynaf yng Nghymru, mae wedi'i chysegru i nawddsant Iwerddon, San Padrig, a dywedir ei fod wedi cysgodi yn agos yma ar ôl cael ei longddryllio yn y 5ed ganrif. Wrth i chi ddilyn y Llwybr, byddwch yn dod ar draws Porth Padrig, un o draethau niferus Ynys Môn wrth i chi ddod yn ôl tuag at Gemaes i gael rhywfaint o fwyd a diod haeddiannol.

Angen gwybod:

Bae Cemaes yw'r pentref mwyaf gogleddol yng Nghymru ac mae'n gyrchfan boblogaidd i dwristiaid, gyda digon o le i barcio, cyfleusterau a lleoedd i fwyta.